# Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

## Gorchymyn drafft Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2012 – adroddiad

## Cyflwyniad

1.1 Rydym yn ddiolchgar am y modd agored y mae Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy ('y Gweinidog') wedi ymgysylltu â ni wrth ddatblygu Gorchymyn drafft Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2012 ('y Gorchymyn drafft'). Yn benodol, roeddem yn falch o gael fersiwn cynnar o'r Gorchymyn drafft cyn iddo gael ei osod yn ffurfiol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ('y Cynulliad'). Mae'r Gweinidog wedi ymateb i sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor hwn a rhanddeiliaid, ac rydym yn falch o weld fod y rhyngweithio cadarnhaol hwn yn digwydd gan ein bod o'r farn bod hyn wedi arwain at ddarn gwell o ddeddfwriaeth. Hoffem hefyd ddiolch i'r Athro Robert Lee am ei gymorth amhrisiadwy yn asesu fersiwn cynnar o'r Gorchymyn drafft.

1.2 Rydym yn disgrifio'r broses ddeddfu a bennodd y Gweinidog ar gyfer creu Cyfoeth Naturiol Cymru fel proses drofaus. Rydym wedi cael dau Orchymyn o dan y Ddeddf Cyrff Cyhoeddus a bydd darpariaethau pellach yn cael eu gwneud ym Miliau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol. Fel y soniwyd gennym yn flaenorol, rydym wedi ei chael yn anodd dirnad llwyr weledigaeth y Gweinidog o'r corff newydd drwy ystyried yr offerynnau hyn ar eu pen eu hunain, gan na fydd elfennau o sylfeini deddfwriaethol Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael eu gosod tan y byddwn yn edrych ar Fil, neu Filiau, yr Amgylchedd.

1.3 Edrychwn ymlaen at fonitro'r gwaith o ddatblygu Cyfoeth Naturiol Cymru, a gweld y darpariaethau y mae'r Gorchymyn drafft hwn, a'r Gorchymyn Sefydlu blaenorol, yn cael eu profi'n ymarferol. Bydd goruchwylio'r ffordd y caiff y darpariaethau hyn eu cymhwyso'n ymarferol yn caniatáu i ni ystyried a oes angen eu gwella gan ddarpariaethau ym Mil, neu Filiau, yr Amgylchedd sydd ar y gweill.

1.4 Mae gweddill yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y Gorchymyn drafft. Yng nghyd-destun y cyfyngiadau a osodwyd gan y Ddeddf Cyrff Cyhoeddus, rydym yn fodlon, ar y cyfan, â darpariaethau'r Gorchymyn drafft. Bydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn edrych ar y cyfyngiadau hynny hefyd, ac a lynwyd atynt. O ganlyniad, rydym yn cydnabod swyddogaethau penodol y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ac nid ydym yn cynnig barn ar y materion hyn yma.

## 2. Dyletswyddau gwarchod natur

2.1 Rydym yn nodi bod y Gorchymyn drafft yn gofyn am ychwanegu erthygl arall i Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 ('y Gorchymyn Sefydlu') sy'n ymwneud â dyletswyddau cadwraeth natur. Deallwn fod yn rhaid dod o hyd i lwybr rhwng dyletswyddau'r cyrff presennol o fewn cyfyngiadau'r Ddeddf Cyrff Cyhoeddus a dyna y mae'r diwygiad hwn a diwygiadau eraill yn ceisio ei gyflawni.

2.2 Yn dilyn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Gorchymyn drafft ac ein hystyriaeth o fersiwn cynnar o'r Gorchymyn drafft, gwnaeth y Gweinidog welliannau pellach yn y maes hwn.

2.3 Mae rhanddeiliaid wedi nodi pryderon gyda ni bod y dyletswyddau, fel y'u cynigir ar hyn o bryd, yn wannach na'r rhai sy'n ofynnol ar hyn o bryd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, a'u bod felly yn dileu'r 'diogelwch angenrheidiol' ar gyfer yr amgylchedd naturiol.

2.4 Yn benodol, nododd RSPB Cymru 'bryderon difrifol' nad oedd y drafft presennol yn cyd-fynd â'r cyfyngiadau a osodir gan y Ddeddf Cyrff Cyhoeddus. Bydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn edrych ar hyn yn fanylach a gofynnwn i'r Gweinidog ystyried y geiriad yn ofalus cyn gofyn i'r Cynulliad dderbyn y Gorchymyn drafft.

2.5 Hefyd, cododd rhanddeiliaid bryderon am ddiffiniad cymdeithasol ac economaidd o ddatblygu cynaliadwy gyda ni, ond rydym yn cydnabod mai mater i'r Gorchymyn Sefydlu oedd hwnnw. Eto, mae hyn yn nodi'r anhawster y mae'r dull hwn wedi'i achosi i rai randdeiliaid.

## 3. Hunan-drwyddedu ac ymgynghori mewnol

3.1 Bydd y Gweinidog yn ymwybodol o'n gwaith cynharach y bu gennym bryderon ers tro ynghylch sut y bydd prosesau hunan-drwyddedu ac ymgynghori mewnol yn cael eu gwahanu o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r Gweinidog wedi rhoi sicrwydd i ni yn y gorffennol y bydd tryloywder a gwahanu swyddogaethau'n fewnol yn caniatáu i'r prosesau hyn gael eu cwblhau'n ddigonol heb unrhyw achos o wrthdaro buddiannau.

3.2 Rydym yn cydnabod nad oes angen i'r trefniadau hyn gael eu nodi yn unol â'r gyfraith. Fodd bynnag, rydym o'r farn y byddai nodi sut y byddai sefydlu'r trefniadau hyn yn gynnar yn rhoi sicrwydd mawr i randdeiliaid pryderus.

3.3 Mae pryderon sylweddol gan randdeiliaid o hyd ynghylch gwahanu swyddogaethau yn fewnol. Rydym yn cydymdeimlo â'r pryderon hyn, a byddwn yn eu cadw mewn cof pan fyddwn yn craffu ar y trefniadau y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu rhoi ar waith. Gofynnwn i'r Gweinidog weithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau bod trefniadau ar waith erbyn 1 Ebrill 2013 a bod manylion am sut y gweithredir y broses wahanu yn cael eu cyfleu i randdeiliaid cyn gynted â phosibl.

## 4. Tryloywder ac atebolrwydd

4.1 O ran sicrhau tryloywder ac atebolrwydd yn y dasg o wneud penderfyniadau, mae'r Gorchymyn Swyddogaethau drafft yn gosod dyletswydd ar y Corff i ddatblygu, mabwysiadau a chynnal cynllun cyhoeddi. Er bod hyn yn darparu dull ar gyfer sicrhau tryloywder, bydd yr amseriad ar gyfer datgelu gwybodaeth o dan y cynllun yn hanfodol o ran caniatáu digon o atebolrwydd cyhoeddus, yn arbennig mewn achosion pan fydd y Corff yn hunan-drwyddedu. Er ein bod yn deall mai cyfrifoldeb y Corff yw datblygu'r cynllun, gofynnwn i'r Gweinidog sicrhau bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu manylion am sut y bydd hyn yn gweithredu'n ymarferol cyn y dyddiad breinio sef 1 Ebrill.

4.2 Ailadroddwn ein disgwyliad y bydd Gweinidogion Cymru yn sicrhau y bydd y cynllun yn nodi amserlen a threfn ar gyfer y broses, a fydd yn sicrhau natur agored a thryloyw hyd at lefel sydd o leiaf yn cyfateb i'r sefyllfa fel y mae ar hyn o bryd, mewn perthynas â'r cyrff unigol.

4.3 Rydym yn deall, i ddechrau beth bynnag, y bydd y trefniadau apelio presennol yn parhau i fod ar waith. Bydd angen i Gyfoeth Naturiol Cymru sicrhau bod y trefniadau gwahanol yn cael eu rheoli a'u cyfleu yn glir i randdeiliaid. Rydym hefyd yn disgwyl i Lywodraeth Cymru edrych am gyfleoedd ym Mil, neu Filiau, yr Amgylchedd, i symleiddio prosesau apelio er mwyn gwella'r sefyllfa bresennol.

## 5. Cyfoeth Naturiol Cymru

5.1 Yn anochel efallai, roedd llawer o'r dystiolaeth a gawsom mewn cysylltiad â'r Gorchymyn drafft yn ymwneud yn fwy eang ag agweddau anneddfwriaethol ar sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru. Nid ydym wedi rhoi sylwadau ar yr holl bryderon hyn gan mai diben yr adroddiad hwn yw mynegi ein barn ni ar y Gorchymyn drafft.

5.2 Byddwn yn ystyried nifer o'r pryderon a godwyd gyda ni mewn sesiynau craffu yn y dyfodol ar y Gweinidog a Chyfoeth Naturiol Cymru, ac mae'r dystiolaeth hon wedi rhoi casgliad o wybodaeth i ni er mwyn datblygu ein gwaith craffu yn y dyfodol.